# Cyngor Cymuned Tudweiliog
Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

## Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd ar 'zoom' nos Wener 15ed Ebrill 2022

Presennol: Alan Hughes, Gareth Jones, John Davies, Alyn Williams, Terry Huws, Henry Huws, Chris Brady, Sian Parry, Sioned Pearson

Ymddiheuriadau:

1. Cadeiriwyd gan Alan Hughes ac estynnodd groeso i bawb ar 'zoom' gan fod y Clerc hefo anwyd. Estynwyd croeso cynes i Sioned fel Cynghorydd newydd.
2. Derbynwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy** – Deallodd y Clerc pan yn ceisio cyflwyno'r ceisiadau, fod angen amcanbris ar gyfer pob prosiect, bydd y Clerc yn gweithio ar gael y prisiau ynghyd yn ystod y mis nesaf.
   b. **Gor yrry ar lon ysgol Tudweiliog -**Ni dderbynwyd unrhyw ymateb gan y Swyddog Iwan ap Trefor, bydd y Clerc yn parhau i geisio cysylltu ag o.
   c. **Tir Garnfadryn –** Edrychodd y Cadeirydd ar gwefan Land Registry ond ni chafwyd unrhyw wybodaeth.
   ch. **Pont Sarn Glorian** –Erbyn hyn mae pont dros dro wedi ei gosod

4. Gohebiaeth:
   a. **Ymgynghoriad Cyhoeddus,Holiadur Anghenion Tai/Gwybodaeth Tai Gweigion –** Derbynwyd ebost gan yr Adran Tai ac Eiddo yn casglu barn trigolion Gwynedd – bydd pob Cynghorydd yn ymateb yn uniongyrchol i'r ymgynghoriad

b. **Cais Cynllunio C22/0285/46/LL Moel y Berth, Llangwnnadl-** Dim Sylw

c. **Cais Cynllinio C22/0352/46/DT Garreg Lwyd, Llangwnnadl -** Cefnogi

ch. **Cais Cynllunio C22/0085/46/DT Cae'r Ffynnon, Llaniestyn -**Dim Sylw

**5. Unrhyw fater arall-**

a. Etholiad mis Mai – Daeth yn amlwg fod sawl Cynghorydd wedi methu cyflwyno eu henwau mewn pryd, gofynwyd i'r Cynghorwyr gysylltu ar Swyddog Huw Elfed Robers ar 01286 679623

b. Croes wedi ei gosod ar ben Garn Fadryn – Cafwyd sylwadau gan y cyhoedd fod rhywun wedi gosod croes fetel ar ben Garn Fadryn, bydd y Clerc yn cysylltu a Cyngor Gwynedd ynglyn a'r mater.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 9fed Mai 2022 am 7.30yh